**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun, Tachwedd 9fed 2015 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr, Raymond Bartley, Margaret Bowe, Rob Parkes Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Brian Davies, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood, Catherine Jones a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Dim.

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod arbennig. Croesawodd hefyd Craig Wilson o Adran Goleuadau Strydoedd CSDd ac Alun Ashworth o Grŵp Busnes Dinbych.

**115. Datganiad Diddordeb Personol.** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

**116. Goleuadau Nadolig.** Cyfeiriodd y cadeirydd at y gwahanol ohebiaeth a dderbyniwyd a gofynnodd i glerc y dref i ymhelaethu. Cyfeiriodd clerc y dref at yr adroddiad a dderbyniwyd oddi wrth Blachere yn dilyn profi'r powltiau llygadog oedd yn dal y gwifrau catenary a'r goleuadau Nadolig. Roedd pob un o'r mannau gosod wedi methu'r prawf ac wedi eu condemnio. Hefyd, cyfeiriodd clerc y dref at y dyfynbris a dderbyniwyd i gywiro'r broblem a hefyd at yr e-byst a dderbyniwyd oddi wrth Phil Ebbrell Pensaer Cadwraeth CSDd. Roedd rhan fwyaf o'r adeiladau a effeithiwyd yn adeiladau wedi eu rhestru a fydd yn creu problemau ychwanegol. Nid oedd yr amserlen a thrafodaethau eraill oedd eu hangen yn caniatáu i'r gwaith gael ei wneud mewn amser i osod y goleuadau Nadolig. Roedd nifer o'r lleoliadau presennol wedi bod yn eu lle ers tua thri deg i bedwar deg o flynyddoedd. Bydd nodweddion newydd yn cael eu gosod ar Stryd y Dyffryn. Bydd y goleuadau Nadolig yn parhau ar Neuadd y Dref ac adeilad y Llyfrgell a hefyd goleuadau yn cael eu gosod ym Mhwll y Grawys. Y rhannau yna o'r dref fydd heb oleuadau Nadolig fydd y Stryd Fawr, Sgwâr y Neuadd, Sgwâr y Goron a Stryd y Bont.
Ar wahoddiad y cadeirydd, dywedodd Craig Wilson fod y profi, mae'n debyg, wedi cymryd lle yn unol â Safon Brydeinig. Yng ngholau'r adroddiad byddai'n annoeth i osod unrhyw oleuadau ar wifrau catenary oherwydd diogelwch a dibenion yswiriant. Roedd y "festoons" a ddefnyddir ddim yn neilltuol o drwm ond roedd y tywydd yn ychwanegu at y llwyth ar y gwifrau. Gofynnwyd i Craig Wilson edrych ar y posibiliadau o ychwanegu goleuadau ychwanegol ar neuadd y dref i ddigolledu'r llen olau yn Sgwâr y Goron.
Cafwyd cryn drafodaeth a derbyniwyd sylwadau: (1) oedd yna unrhyw fodd o ddefnyddio'r "festoons" yn Sgwâr y Goron yn lle'r llen olau, (2) roedd angen datrys y materion, (3) roedd angen datganiad i'r wasg, (4) pam nad oedd modd defnyddio powltiau llygadog mwy, (5) roedd y sefyllfa yn un anffodus, (6) a oedd modd gwneud rhywbeth, (7) pwy ddaru osod y bolltiai presennol, (8) roedd prinder manylion yn yr adroddiad a'r angen i ofyn mwy o gwestiynau, (9) roedd angen derbyn yr adroddiad - ond am flwyddyn y bydd lleihau yn y goleuadau - y gorau y gallem ei wneud oedd ychwanegu goleuadau ar neuadd y dref - roedd angen i'r cyngor lyncu pilsen chwerw, (10) a oedd modd gosod goleuadau rhwng goleuadau stryd, (11) yng ngholau'r adroddiad byddai'n hurt i symud ymlaen - roedd angen i'r cyngor tref ryddhau datganiad i'r wasg, (12) doedd ond am flwyddyn ac roedd angen edrych ar ôl ein hadeiladau rhestredig.
Dywedodd y Cyng Catherine Jones fod CSDd wedi cytuno i goeden gael ei gosod yn Sgwâr y Goron tu allan i Westy'r Goron ac wedi ei hariannu yn breifat.

Dywedodd Alun Ashworth, ar gais y cadeirydd, ei fod yn gwerthfawrogi cael ei wahodd i'r cyfarfod ac roedd angen i wneud y gorau bosibl gyda'r hyn oedd ar gael.
Ar derfyn y drafodaeth **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **I beidio â gosod goleuadau yng nghanol y dref am eleni ac i gysylltu â Blachere a'r Swyddog Treftadaeth i ddarganfod ffordd ymlaen a hefyd i ddarparu datganiad i'r wasg.**

Tra'n trafod goleuadau Nadolig cyfeiriodd clerc y dref at y dyfynbris a dderbyniwyd ar gyfer coed Nadolig ar y ddwy gylchfan - cytunwyd yn unfrydol i dderbyn y dyfynbris yn y swm o £1,121 & TAW.

**117.** **Sedd Wag y Cyngor.** Dywedodd clerc y dref fod y Cynghorydd Geraint Lloyd Williams wedi ymddiswyddo gydag effaith o Hydref 30ain 2015. Byddai'r hysbysiadau priodol yn hysbysebu'r sedd wag yn cael eu cyhoeddi dydd Mawrth Tachwedd 10fed gyda dyddiad cau ar Dachwedd 30ain 2015. Cytunwyd I yrru llythyr at y Cyng Geraint Williams.

**118.** **Pwll y Grawys.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth CSDd ynglŷn â'r gylchfan fechan ym Mhwll y Grawys. Trafodwyd y mater. Y farn gyffredinol oedd bod angen datrys y problemau a achoswyd gan y gylchfan fechan. Roedd angen edrych ar faterion fel llefydd croesi saff i gerddwyr yn ogystal â rhediad traffig esmwyth. Roedd trydedd Groes Farchnad Dinbych wedi bod ar y safle ym Mhwll y Grawys ers y 1920au yn dilyn ei symud o Sgwâr y Goron i wneud lle i'r Gofgolofn Rhyfel. Cytunwyd mai symud y groes o Bwll y Grawys oedd yr unig ateb. Edrychwyd ar y Cynllun oedd yn dangos safleoedd oedd yn bosib. **Penderfynwyd** (11 pleidlais i 1) **I adleoli'r Groes Farchnad i'r ardal cerddwyr ger Caffi'r Pantri ar y Stryd Fawr.**

**119.** **Menter Sgiliau Cymunedol Gwledig.** Tra'n atgoffa'r cyfarfod fod cyflwyniad i'w wneud yn y Flwyddyn Newydd, dywedodd clerc y dref fod cais wedi ei dderbyn yn gofyn am lythyr o gefnogaeth er mwyn galluogi cyflwyniad yn mynegi diddordeb gael ei yrru i'r Loteri Genedlaethol. Cytunwyd i yrru llythyr yn cefnogi.

Am nad oedd mwy i drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.20 o'r gloch.

Arwyddwyd: ………………………………………………………………………………..(Cadeirydd)

Dyddiad: ………………………..